

Uned Gofal Dydd ar y Cyd



Cyfleusterau

- Mae'r Uned Cyd Ofal Dydd yn ganolfan amlbwrpas ar gyfer oedolion.
- Fe'i lleolir yng Nghanolfan Chwaraeon Abertyleri a gellir mynd ati'n hawdd o Stryd Alma.
- Mae cyfleusterau ardderchog yn y ganolfan ac fe geir ynddi'r canlynol:
 - ardal fwyta fawr
 - lolfa
 - ystafell grefft
 - ystafell breifat
 - ystafelloedd ymolchi a thoiledau, wedi'u dodrefnu'n dda i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth
 - cegin fach, sy'n gweini lluniaeth drwy gydol y dydd



Trafnidiaeth

- Bydd Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n mynychu'r ganolfan ddydd yn gymwys i geisio am le ar y drafnidiaeth, yn ddibynnol ar gaffaeledd ac asesiad.
- Mae'r tîm trafndiaeth yn defnyddio trafndiaeth arbenigol, all gymryd cadeiriau olwyn ac sydd ag esgynfa yn y cefn.
- Mae'r holl yrwyr a'r hebryngwyr a gyflogir yn cymryd rhan mewn rhaglen gyflwyno a derbyniant hyfforddiant mewn systemau trafndiaeth diogel.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Staff

- Mae'r tîm staff yn y Gyd Uned Gofal dydd yn cynnwys Rheolwr Gwasanaeth Dydd, Arweinydd Tîm (yn cynnwys Swyddog Clerigol), Gweithwyr Cefnogaeth Gymunedol a Chymhorthwyr Domestig.
- Mae'r holl staff yn yr Uned Gofal Dydd ar y Cyd naill ai wedi ennill neu'n gweithio tuag at NVQ yn y lefel sy'n briodol i'w swydd.
- Rhoddir i staff hyfforddiant pellach yn ogystal fel y bydd yn briodol i ddatblygu'u sgiliau a'u gwybodaeth i'w galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r ystod eang o anableddau'r Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n mynychu'r ganolfan.
- Arolygir staff yn rheolaidd gan eu rheolwr llinell ac maent yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd.
- Mae tîm bychan brwdfrydig o staff yn yr Uned Gofal Dydd ar y Cyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dibynadwy o safon uchel.

Prydau bwyd

- Mae'r ganolfan yn cynnig brecwast ysgafn o de neu goffi a thost wrth i'r defnyddwyr gwasanaeth gyrraedd, am bris isel.
- Mae dewis o ddiodydd ar gael ar hyd y diwrnod.
- Bydd y ganolfan yn paratoi pryd canol dydd. Mae dewis o fwydlenni a darperir ar gyfer dietau arbenigol.



Gwasanaethau

- Mae'r ganolfan gofal dydd yn gallu cymryd hyd at 30 o Ddefnyddwyr Gwasanaeth, ac eithrio ar ddydd Llun, diwrnod sy'n cael ei neilltuo i bersonau iau ag anabledd corfforol.
- Bydd y gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriadau gan unigolion 18 oed a throsodd sydd â'u prif breswylfa o fewn ffiniau daearyddol Blaenau Gwent.
- Bydd y gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriadau gan unigolion 18 oed a throsodd sydd â'u prif breswylfa o fewn ffiniau daearyddol Blaenau Gwent.
- Caiff yr holl Ddefnyddwyr Gwasanaeth sy'n mynychu'r ganolfan ddydd eu hasesu a'u hadolygu'n flynyddol drwy gyfrwng y broses cynllunio gofal.

Prisiau

Mae Blaenau Gwent yn gosod eu costau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.


Gweithgareddau

- Cynigir amrywiaeth o weithgareddau yn yr Uned Gofal Dydd ar y Cyd a chefnogir Defnyddwyr Gwasanaeth i gymryd rhan ym mha weithgareddau bynnag a ddewisant.
- Cynhelir cyfarfodydd i Ddefnyddwyr Gwasanaeth bob tri mis fel y gellir cynllunio gweithgareddau lle caiff Defnyddwyr Gwasanaeth eu hannog i roi'u syniadau a'u barn.



Mae'r gweithgareddau a drefnir yn y ganolfan ddydd yn cynnwys:

- Dosbarthiadau crefft yn cael eu darparu gan y staff yn y ganolfan a'r Adran Addysg.
- Ymarfer ysgafn.
- Rhaglenni ymarfer (atgyfeiriadau meddygon teulu).
- Croeseiriau a chwisiau rheolaidd.
- Digwyddiadau chwaraeon, e.e. bowlio, boccia.
- Teithiau i dai bwyta a thafarndai.
- Partïon ar gyfer digwyddiadau arbennig, e.e. y Nadolig.
- Siopa.
- Mae gan y ganolfan gysylltiadau clos â'r gymuned, gydag ysgolion lleol a chyda chorau sy'n ymweld.
- Therapi anifeiliaid anwes.
- Garddio cynhwysydd.
- Arddangosiadau a sgysiau.
- Therapi cerddoriaeth a hel atgofion drwy'r rhyngwrdd.



Ffynonellau Cymorth

C2BG
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Y Ganolfan Ddinesig
Glyn Ebwy
Gwent
NP23 6XB

Ffôn: (01495) 315700

Uned Gofal Dydd ar y Cyd
Canolfan Chwaraeon Abertyleri
Stryd Alma
Abertyleri
NP13 1QD

Ffôn: (01495) 356040



I dderbyn yr wybodaeth hon mewn Braille, print bras, yn electronig neu ar dâp sain cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar (01495) 354630 os gwelwch yn dda.

Taflen AS025-4 Ebrill 2016
www.blaenau-gwent.gov.uk